OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 621 (Cy.70)

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*7 Mawrth 2006*
Yn dod i rym - -	*6 Ebrill 2006*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 21(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi a Chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Llywodraethu Corfforaethau Addysg Bellach (Dirymu) (Cymru) 2006 a deuant i rym ar 6 Ebrill 2006.

Dirymu

2.—(1) Mae'r Rheoliadau a bennir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn (sy'n ymwneud â chorfforaethau addysg bellach yng Nghymru) drwy hyn wedi'u dirymu.

(2) Mae'r Rheoliadau a bennir yn Rhan 2 o'r Atodlen i'r Rheoliadau hyn wedi'u dirymu mewn perthynas â Chymru.

(**1**) 1992 p.13. Diwygiwyd adran 21(1) gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31), Atodlen 30, Paragraff 35 ac Atodlen 31.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (OS 1999/672).